**Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 20 Ebrill/April 2023 yng Nghapel MC Swyddffynnon**

**Yn bresennol / *Present*:** Thomos Jones, Daniel Bailey, Mair Humphreys, Wyn Evans, Tomos Jones, David M Jones, Siarl Owen a Sarah Jones. Roedd John Evans o Heddlu Dyfed Powys yn bresennol hefyd.

Derbyniwyd cofnodion 26 Ionawr 2023 fel rhai cywir./ Minutes of meeting held 26 Janaury 2023 were accepted as a correct record.

**Materion yn codi o gofnodion 26 Ionawr 2023**

1. **Cyflwr Heolydd** – nodwyd bod yr holl gwynion sydd ar ein rhestr wedi ei cofnodi ar clic fwy nag unwaith. Ceïr ar ddeall mae problemau cyllidol tan y flwyddyn ariannol nesaf sy'n achosi'r oedi i flaenoriaethu'r gwaith cynnal a chadw. Nododd y Cynghorydd Wyn Evans ei fod yn cadw llygad ar y sefyllfa. Derbyniwyd ateb hefyd i'n sylwadau am yr oedi yn casglu sbwriel ar "route 116", nodwyd bod hyn yn broblem ond bod y Cyngor Sir yn gweithio ar adfer y sefyllfa.
2. **Diffibriliwr –** yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf cytunwyd i fynd ati i edrych ar gost bocs i'r diffibriliwr presennol yn Ystrad Meurig. Roedd y clerc wedi neud ymholiadau, ac roedd pris y bocsys yn amrywio o £400 -£600 yn ddibynnol ar anghenion o ran trydan ayyb. Cytunodd y Clerc i edrych beth oedd Cymunedau eraill wedi ei prynu a dod a phrisiau i'r cyfarfod nesaf.
3. **Hyfforddiant i Gynghorwyr –** siomedig bu ymateb Un Llais Cymru yn dilyn cais gan y tri Cyngor Cymuned lleol i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth cyffredinol i Gynghorwyr Cymuned. Doedd neb ganddynt yn yr ardal i hyfforddi, ac yn medru cynnig ond hyfforddiant ar-lein. Nodwyd nad oedd hyn yn dderbyniol a chytunwyd i neud ymholiadau pellach efo Un Llais Cymru.
4. **Un Llais Cymru –** cytunwyd i ymaelodi ar gost o £65.00.
5. Derbyniwyd siec o £15.22 oddi wrth y grid cenedlaethol am gost polion trydan.
6. **Un Llais Cymru** – derbyniwyd agenda a chofnodion Pwyllgor Ardal Ceredigion ar gyfer 18 Ebrill 2023.
7. **Arwchwiliad Blynyddol 2021 – 22** – derbyniwyd cadarnhad bod yr awdit yn orffenedig heb unrhyw argymhellion pellach.
8. **Barclays** 27 Chwefror 2023 - £2,280.67, 30 Mawrth 2023 - £1,330.67.
9. Cytunwyd i gyfrannu £150 i'r Ganolfan tuag at gostau dathlu Coroni Brenin Siarl III ar benwythnos Gwyl Banc Calan Mai.
10. Adroddodd John Evans y byddai Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys yn cynnal "roadshow" yn Llanbedr Pont Steffan ar 26 Ebrill 2023 am 10.00 o'r gloch.
11. **Maes Chwarae** – mae'r Maes Chwarae yn destun pryder a gofid. Cytunwyd felly i dynnu'r cyfarpar a'r concrete oddi yno, ac i dorri'r porfa ar lan yr afon a'i gadw fel parc yn unig. Cytunwyd wedyn y byddai angen gosod arwydd yn hysbysu'r cyhoedd o berygl yr afon wedi 'r gwaith gael ei gwblhau.
12. **Comisiwn Ffiniau Cymru** – Adroddwyd y byddai Comisiwn Ffiniau Cymru yn cynnal adolygiad o ffiniau'r Cyngor Cymuned dros y misoedd nesaf, gan edrych yn arbennig ar gymunedau efo llai na 400 ar y gofrestr etholiadau. Fflagiwyd y gall hyn effeithio arnom fel Cyngor Cymuned bach gwledig. Bydd hi'n bwysig inni ymateb i'r ymgynghoriad.
13. Cytunwyd i ysgrifennu at y Cyngor Sir am y ddarpariaeth anddiogonol o fysiau cyhoeddus sy'n rhedeg drwy Swyddffynnon, Ystrad Meurig a Thynygraig.
14. Adroddodd y Cynghorydd Wyn Evans ei fod wedi codi mater TB mewn gwartheg o fewn y Cyngor Sir ar angen am weithredu efo agwedd gyfannol ar y mater hyn.

15. **Llwybr Beicio'r Ystwyth** – nodwyd am yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw o ran torri coed a atgyweirio ffens ar y llwybr beicio – adroddwyd bod hyn yn fater sydd angen sylw ond bod dim cyllid gyda'r Cyngor Sir i weithredu ar hyn.
16. **Sgwar Ystrad Meurig** – nodwyd bod y gwyn a dderbyniwyd gan ddeiliaid Tandre wedi ei drosglwyddo i'r Cyngor Sir, ac mae mater i'r Cyngor Sir oedd delio efo cyflymder drwy'r pentref.
17. **Rhestr y Gofgolofn** – cytunodd y Clerc i ail-wampio'r rhestr erbyn y cyfarfod nesaf.

DIWEDD